CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2021/2022

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Margaret Murley Roberts**
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Lligwy

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| | **https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserAttendanceSummary.aspx?LLL=1** |
| Panel Rhiantu Corfforaethol | |
| Pwyllgor Apeliadau | |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| Pwyllgor Grantiau Cyffredinol | |
| Pwyllgor Safonau - Panel Penodi | |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Llywodraethwr / FfedarasiwnGwel y Glanau (Ysgol Moelfre a Goronwy Owen Benllech)<br>- Llywodraethwr / Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones, Amlwch | I<br><br>Rwyf yn Lywodraethwr yn Ysgol Syr Thomas Jones a Gwel y Glanau mynychu cyfarfodydd llawn a paneli. |

| | |
|---|---|
| - Pencampwr Amrywiaeth | Rwyf yn Lywodraethwr ar Ysgol Gymuned Moelfre sydd nawr yn ran o ffaedarasiwn newydd gyda Ysgol Goronwy Owen sef Ffedarasiwn Gwel y Glannau<br><br>Rwyf yn bencampwr Amrywiaeth |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwyf yn mynychu Cyngor Cymuned Moelfre yn rheolaidd lle dwi yn darparu adroddiadau misol. Rwyf hefyd yn mynychu ambell gyfarfod o Gyngor Cymuned Pentraeth.

Rwyf wedi bod yn falch o roi cymorth a chyngor i drigolion y ward. Rwyf ar gael un ai dros y ffon neu ebost. Wedi helpu etholwyr a'u teuluoedd mewn llawer a gwahanol ffyrdd e.e.:
Cynllunio: Wedi ymateb i geisiadau i gyfathrebu gyda'r Adran Gynllunio. Wedi siarad yn y Pwyllgor Gynllunio un ai o blaid neu yn erbyn cynlluniau lawer gwaith.
Adran Dai: Wedi cyfathrebu ar ran tenantiad i ddatrys gwahanol broblemau.
Priffyrdd: Gwahanol geisiadau o wrychoedd, gor-yrru gosod drychau er diogelwch llifogydd ayyb
Gwasanaeth Cymdeithasol: Cyfathrebu ar ran drigolion am faterion gwahanol drwy gyfrwng Zoom neu Teams.  Mae hi wedi bod yn bosib gweud fy ngwaith fel Cynghorydd mewn cyfnod anodd.

**3 -  Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn ystod y cyfnod Cofid rydw i wedi gallu parhau i fod yn Aelod o bwyllgorau a paneli drwy ddefnyddio Zoom ac rydym wedi gallu cyflawni ein gwaith.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Margaret Murley Roberts

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Margaret Murley Roberts** | **Gorffennaf 2022** |